Llywodraeth Cymru

Deddfwriaeth Pysgodfeydd y Glannau

IS-DDEDDF 12 CYN-BWYLLGOR PYSGODFEYDD MÔR GOGLEDD-ORLLEWIN LLOEGR A GOGLEDD CYMRU - CYFYNGIADAU AR BYSGOTA AM BYSGOD CREGYN MOLYSGAIDD DWYGRAGENNOG

Mae Is-ddeddfau 12 yn berthnasol i'r môr rhwng Trwyn Cemaes (Ceredigion) a'r Parlwr Du (Sir y Fflint).

CAIS AM GANIATÂD i bysgota am Gregyn Bylchog (*Pecten maximus*) yn ystod tymor 2022/23

Enw'r Ymgeisydd: .....

Cyfeiriad: .....

.....

Cod Post: ……

Rhif Ffôn: .....Rhif Ffôn Symudol: ……

E-bost: .....

Enw a Rhif Cofrestru'r Cwch: .....

Hyd Cofrestredig: ..... Hyd Cyffredinol: …….....

Math a Rhif y Drwydded Bysgota: .....……..

Man(nau) Glanio:

..... .

Llofnod: …… Dyddiad: ……

DYCHWELER I:
Is-adran y Môr a Physgodfeydd,
Llywodraeth Cymru,
Ystafell 3, Cedar Court,
Parc Busnes Haven's Head,
Aberdaugleddau,
Sir Benfro
SA73 3LS. Tel: 03000 253500
E-bost: MilfordHavenFisheriesOffice@gov.wales

At ddefnydd y swyddfa'n unig: Rhif y Drwydded:	Dyddiad cyhoeddi:	Dyddiad y daw'r drwydded i ben:

SYLWER

1. Mae Is-ddeddf 12 cyn-Bwyllgor Pysgodfeydd Môr Gogledd-Orllewin Lloegr a Gogledd Cymru bellach yn weithredol, i'r graddau a oedd yn bosibl gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol, fel pe bai wedi'i gwneud gan Weinidogion Cymru mewn Offeryn Statudol, yn unol ag Erthygl 13(3) Gorchymyn Deddf Mynediad i'r Môr a'r Arfordir 2009 (Cychwyn Rhif 1, Darpariaethau Canlyniadol, Trosiannol ac Arbedion) (Cymru a Lloegr) 2010 (O.S. 2010/630 (C.42)). Yn rhinwedd Erthyglau 10(4) ac 13(5) a (6) y Gorchymyn (2010) hwnnw, Gweinidogion Cymru sydd bellach yn cyflawni pob swyddogaeth yr arferid ei chyflawni gan y Pwyllgor (yn unol ag Is-ddeddf 12), a hynny ers 1 Ebrill 2010.

2. Bydd unrhyw ganiatâd a roddir yn sgil y cais hwn yn ymwneud ag Is-ddeddf 12 y cyn-Bwyllgor yn unig.

3. Cyfrifoldeb yr Ymgeisydd yw sicrhau y cydymffurfir â phob deddfwriaeth berthnasol arall (gan gynnwys darpariaethau domestig ac Ewropeaidd yn ymwneud â physgodfeydd a safleoedd nad ydynt yn bysgodfeydd). Tynnir sylw arbennig at Orchymyn Pysgota am Gregyn Bylchog (Cymru) (Rhif 2) 2010 (O.S. 2010/269)[1] fel y'i diwygiwyd gan Rheoliadau Pysgota Môr (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2019 (O.S. 2019/1332)[2].

Hysbysiad Preifatrwydd Cangen Gweithrediadau Pysgodfeydd Llywodraeth Cymru (darllenwch cyn llenwi'r ffurflen gais)

Mae eich preifatrwydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru ac yn unol â Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data, rydym wedi llunio Hysbysiad Preifatrwydd sy'n esbonio pam rydym yn casglu ac yn defnyddio eich gwybodaeth. Mae'r hysbysiad preifatrwydd hwn yn sicrhau y caiff eich data personol eu prosesu'n deg ac yn gyfreithlon, ac mewn ffordd dryloyw.

1. Cefndir

Cymerwch funud i ymgyfarwyddo â'n harferion preifatrwydd a pham rydym yn casglu ac yn prosesu'r data sy'n cael eu casglu.

Ar ôl i'ch cais ddod i law, Llywodraeth Cymru fydd Rheolydd Data y data personol rydych chi'n eu darparu i ni.

Gall y wybodaeth y byddwn yn ei chasglu a'i dal o'ch cais gynnwys eich enw, cyfeiriad, rhif ffôn/ffôn symudol, cyfeiriad e-bost, rhif Yswiriant Gwladol, tystiolaeth o gyrsiau Iechyd a Diogelwch gofynnol a thystiolaeth o'ch cyfeiriad cartref. Ar adegau pan fo cais yn cael ei wneud am drwydded llun, byddwn hefyd yn casglu dau ffotograff maint pasbort gennych.
Bydd data Ffurflen Datgan Niferoedd Dalfa a ddarperir gennych yn unol â deddfwriaeth hefyd yn cael eu casglu a'u dal.

[1] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2010/269/contents/made

[2] http://www.legislation.gov.uk/wsi/2019?title=sea%20fishing%20miscellaneous

2. Beth ydyn ni'n ei wneud gyda'ch gwybodaeth?

Diben casglu'r data hyn yw i Lywodraeth Cymru roi'r trwyddedau a'r cofrestriadau pysgodfeydd rydych yn gwneud cais amdanynt i Lywodraeth Cymru.

Mae angen gwybodaeth gyswllt i sicrhau eich bod yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am agor a chau pysgodfeydd ac unrhyw wybodaeth bwysig arall y bernir ei bod yn angenrheidiol er mwyn rheoli pysgodfa gynaliadwy yn ddiogel.

Defnyddir Ffurflenni Datgan Niferoedd Dalfa i'n cynorthwyo i fonitro'r bysgodfa wrth arfer ein dyletswydd swyddogol ac i ddarparu ar gyfer hyfywedd y pysgodfeydd dan sylw yn y dyfodol.

3. Gyda phwy yr ydym yn rhannu eich gwybodaeth?

Gall yr wybodaeth a gesglir gael ei rhannu â nifer o Adrannau Llywodraeth Cymru ar gyfer busnesau morol a physgodfeydd. Lle bo angen, gall eich gwybodaeth hefyd gael ei throsglwyddo i Gyrff Statudol megis Awdurdodau Lleol neu'r Awdurdod Meistri Gangiau a Cham-drin Llafur, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt, fel y gallant gysylltu â chi ynghylch materion sy'n ymwneud â rheoleiddio gweithgarwch pysgota. Gall asiantaethau, a awdurdodwyd gan Lywodraeth Cymru, hefyd weld eich data er mwyn dilysu eich cymhwysedd ar gyfer grantiau ariannol, busnes neu iechyd a diogelwch.

4. Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth?

Bydd Llywodraeth Cymru ond yn cadw eich data personol am 4 blynedd ac ar gyfer y dibenion a nodir yn y ddogfen hon.

Ar ôl hynny, bydd y data a gesglir naill ai'n cael eu dileu neu'n cael eu gwneud yn ddienw yn unol ag arferion gorau ac yn cael eu defnyddio at ddibenion ystadegol ac ymchwil yn unig.

5. Eich hawliau mewn perthynas â'ch gwybodaeth.

O dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych chi hawl i wneud y canlynol:
• gweld y data personol mae Llywodraeth Cymru yn eu dal amdanoch chi;
• mynnu ein bod yn cywiro unrhyw wybodaeth anghywir yn y data hynny;
• gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu data (mewn rhai amgylchiadau);
• 'dileu' eich data (mewn rhai amgylchiadau);
• cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

Dyma fanylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

Cyswllt Cwsmeriaid
Wycliffe House,
Water Lane,
Wilmslow,
Swydd Gaer,
SK9 5AF

Rhif ffôn: 01625 545 745 neu 0303 123 1113
Gwefan : www.ico.org.uk

6. Eich Gwybodaeth a'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth

O dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004, gall y cyhoedd ofyn am gael gweld gwybodaeth sy'n cael ei dal gan gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Gall yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni fod yn destun cais rhyddid gwybodaeth gan aelod arall o'r cyhoedd. Byddem yn cysylltu â chi i gael eich barn cyn ymateb i gais o'r fath.

7. Newidiadau i'r polisi hwn

Gall Llywodraeth Cymru newid y polisi preifatrwydd hwn ar unrhyw adeg a byddwn yn cysylltu â chi i roi gwybod am unrhyw newidiadau ar unwaith.

I gael rhagor o wybodaeth am eich hawliau gwybodaeth

Y Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
E-bost: swyddogdiogeludata@llyw.cymru